LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Corff Llais y Dinesydd ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru: Llais Cymru

Penodi Aelod Anweithredol i'r Bwrdd.

Dyddiad cau: 21 Ebrill 2025

Mynegai:

1. **Neges gan Gadeirydd Llais Cymru**
2. **Cyflwyniad i Llais Cymru**
3. **Rôl yr Aelod Anweithredol a rôl y Bwrdd**
4. **Ein Bwrdd a Phwyllgorau**
5. **Y ffordd rydyn ni'n gweithio**
6. **Disgrifiad o'r Rôl a Manyleb y Person**
7. **Sut i wneud cais**
8. **Datganiad Personol**
9. **Curriculum Vitae**
10. **Geirdaon**
11. **Y Gymraeg**
12. **Amodau Penodi**
13. **Hyd y Penodiad**
14. **Ymrwymiad Amser**
15. **Lleoliad**
16. **Tâl cydnabyddiaeth**
17. **Cynefino, Dysgu a Datblygu**
18. **Amserlen fras**
19. **Datganiad ar Amrywiaeth**
20. **Hyderus o ran Anabledd**
21. **Cysylltiadau Allweddol**
22. **Cymhwystra**
23. **Gwrthdaro Buddiannau**
24. **Diwydrwydd Dyladwy**
25. **Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus**
26. **Y Broses Ddethol**
27. **Ymholiadau**

1 Neges gan Gadeirydd Llais

Diolch ichi am ddangos diddordeb mewn bod yn aelod o Fwrdd Llais Cymru.

Ers ein sefydlu ar 1 Ebrill 2023, rydym wedi canolbwyntio ar osod sylfaen gref. Canolbwyntiwyd ein hymdrechion cychwynnol ar wrando - ar y cyhoedd, ein rhanddeiliaid, a'n timau ein hunain. Roedd y cyfnod hwn yn ein galluogi i ddeall anghenion a dyheadau'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Er gwaethaf cymhlethdodau sefydlu systemau newydd ac integreiddio staff a gwirfoddolwyr newydd, rydym wedi cymryd camau breision o ran adeiladu fframwaith cadarn sy'n cefnogi ein cenhadaeth.

Rydym wedi profi cyfnod o drawsnewid a thwf sylweddol wrth i ni sefydlu ein hunain fel corff annibynnol sy'n ymroddedig i adlewyrchu barn a chynrychioli buddiannau pobl Cymru mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r Bwrdd a minnau'n hynod falch o'r cynnydd rydym wedi'i wneud fel sefydliad newydd, ac rydym yn ddiolchgar am ymrwymiad diwyro ein staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid.

Rydym yn parhau i gymryd rhan mewn nifer o fentrau i godi lleisiau pobl Cymru. O fynychu digwyddiadau lleol a chenedlaethol i lansio ymgyrch farchnata amlgyfrwng gynhwysfawr, nod ein hymdrechion yw codi ymwybyddiaeth am ein rôl annibynnol wrth wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym wedi llwyddo i sefydlu partneriaethau cryf gyda chyrff y GIG, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector, ac yn parhau i'w datblygu. Mae hyn wedi bod yn allweddol o ran cefnogi ein dulliau gweithredu.

Rydym wedi ymrwymo i wneud Llais yn sefydliad sy'n cael ei redeg yn dda, sy'n ddibynadwy ac yn uchelgeisiol. Mae ein gweledigaeth ar gyfer y 3 i 5 mlynedd nesaf yn gosod nodau uchelgeisiol i helpu i sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gweithio yn y ffordd orau i bawb. Byddwn yn parhau i ddysgu, addasu a thyfu, gan flaenoriaethu anghenion a lleisiau'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu bob amser.

Mae ein cynllun strategol ar gyfer 2024-2027 yn arwain ein hymdrechion i sbarduno sgwrs genedlaethol am ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd y sgwrs hon yn gynhwysol ac yn onest, gan fynd i'r

afael â'r heriau sy'n ein hwynebu ac adeiladu consensws ynghylch datrysiadau cynaliadwy.

Mae Llais yn chwilio am ymgeiswyr sy'n rhannu'r weledigaeth hon ac yn rhannu ein gwerthoedd i gyfrannu at Fwrdd ymroddedig sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ein nodau sefydliadol a chyfrannu at ddatblygiad parhaus y sefydliad. Mae Llais yn chwilio am ymgeiswyr sy'n cyfrannu profiad diweddar o gyfrifyddiaeth, gwasanaethau ariannol a llywodraethu ariannol ac ymgeiswyr sydd â dealltwriaeth effeithiol o'r materion iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Cymru ac yn ddelfrydol yng Ngogledd Cymru.

Diolch ichi am ystyried y cyfle hwn i ymuno â Llais. Gobeithio y gallwn eich annog i wneud cais.

Yr Athro Medwin Hughes
Cadeirydd

2 Cyflwyniad i Llais Cymru

Mae Llais Cymru yn gorff cenedlaethol, annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru drwy Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, i roi llais cryfach i bobl Cymru yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Daethom yn gwbl weithredol ar 1 Ebrill 2023. Ar y dyddiad hwn, daeth y cyn-Gynghorau Iechyd Cymuned ar draws Cymru i ben wrth i Llais gael ei sefydlu.

Mae Llais yn ceisio sicrhau bod barn a phrofiadau dinasyddion Cymru yn cael eu defnyddio'n weithredol gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gynllunio a darparu gwell gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion pobl.

Mae Bwrdd a staff Llais yn canolbwyntio ar sicrhau bod popeth a wnawn er budd pobl Cymru. Rydym yn cynnal gweithgareddau yn genedlaethol ac yn lleol yn ein 7 rhanbarth i gynrychioli buddiannau dinasyddion a chasglu eu profiadau, yn dda ac yn ddrwg, o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn cynrychioli pobl Cymru wrth gynllunio a thrafod gyda darparwyr y GIG a gofal cymdeithasol yn lleol i ymateb i'r pethau sydd bwysicaf iddynt. Rydym hefyd yn rhoi cefnogaeth i ddinasyddion wneud cwynion ac yn rhoi cymorth eirioli, pan fo angen.

Mae Llais yn gorff statudol, ac mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gyrff y GIG, awdurdodau lleol a darparwyr gofal y trydydd sector wrando arnom a chymryd sylw o'r hyn yr ydym yn ei ddwyn i'w sylw ar ran pobl Cymru.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn dryloyw ym mhopeth a wnawn, rhoi atebolrwydd cryf a threfniadau llywodraethu da ar waith, rheolaeth ariannol effeithlon a sicrhau defnydd priodol o arian cyhoeddus.

Rydym hefyd yn ceisio darparu cynrychiolaeth a chefnogaeth ystyrlon i ddinasyddion Cymru yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i'r rhai sy'n defnyddio eu gwasanaethau ac yn dibynnu arnynt. Rydym wedi gwneud hyn drwy ymgysylltu â dinasyddion a'n partneriaid i ddatblygu ein Cynllun Strategol tair blynedd newydd, a ddaeth i rym o fis Ebrill 2024.

Mae rhagor o wybodaeth gefndirol am Llais a'n gwaith i'w gweld ar ein gwefan – www.llaiswales.org

3 Gwybodaeth am y rôl

Rôl y Bwrdd

Mae Bwrdd Llais yn atebol ac yn gyfrifol am sicrhau bod Llais yn cyflawni ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 a'n cytundeb atebolrwydd â Llywodraeth Cymru.

Disgwylir i aelodau'r Bwrdd weithredu ac ymddwyn mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu ac yn arddangos saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan, y gwerthoedd arweinyddiaeth a ddisgwylir gan wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a Fframwaith Ymddygiad Llais.

Mae'r Bwrdd, drwy'r Cadeirydd, yn atebol i Weinidogion Llywodraeth Cymru am lywodraethu'r sefydliad yn effeithiol, am gynnal gwerthoedd cyhoeddus Cymru a hybu hyder yn y cyhoedd a'n partneriaid o'r ffyrdd y mae Llais yn ymgymryd â'i fusnes yn briodol, atebol, agored a thryloyw.

Y Prif Weithredwr yw'r Swyddog Cyfrifyddu dynodedig ar gyfer Llais. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys bod yn gyfrifol am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol, ac am asedau Llais fel y nodir yn y memorandwm – ‘Rheoli Arian Cyhoeddus’ - a

gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, a ‘Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru’, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

4 Ein Bwrdd a Phwyllgorau

Mae'r Cadeirydd a'r 9 aelod o'r Bwrdd yn gyfrifol am ddarparu arweiniad a chyfarwyddyd. Mae ein Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd, 6 aelod anweithredol arall a'r Prif Weithredwr. Gall unigolion ym mhob un o'r rolau hyn bleidleisio ar benderfyniadau'r Bwrdd. Mae gan ein Bwrdd un aelod cyswllt anweithredol, nad yw'n cael pleidleisio ac fe'i penodir mewn cytundeb ag undebau llafur.

Mae'r Bwrdd yn gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr a'n huwch dîm arweinyddiaeth, a elwir yn Tîm Arwain, i osod ein cyfeiriad strategol trwy gymeradwyo ein cynllun strategol 3 blynedd a'n cynllun blynyddol, dyrannu ein hadnoddau a monitro ein perfformiad. Mae ein gwaith yn cael ei graffu, ei arwain a'i gymeradwyo gan y Bwrdd a'i is-bwyllgorau.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn ffurfiol 6 gwaith y flwyddyn yn gyhoeddus ac yn cynnal 6 chyfarfod datblygu arall. Mae pob aelod anweithredol yn cael ei benodi i un o 2 bwyllgor Llais. Mae pob un o'r pwyllgorau yn cyfarfod ar gyfer o leiaf 4 cyfarfod y flwyddyn.

5 Y ffordd rydyn ni'n gweithio

Nod Bwrdd Llais yw gosod safonau a gwerthoedd clir o fewn ein sefydliad a'r tu allan iddo. Rydym hefyd yn gwrando'n astud ar ein staff a'n gwirfoddolwyr, ac ar ddinasyddion Cymru ac yn cydweithio ag eraill i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rolau a'n cyfrifoldebau mewn modd priodol, effeithiol ac effeithlon. Ein gwerthoedd yw:

Person-ganolog - Rydym yn rhoi anghenion a phrofiadau pobl wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.

Cydweithio - Rydym yn gynhwysol ac yn hygyrch. Rydym yn gweithio fel un tîm sydd â nodau a rennir, o fewn ein sefydliad ac yn allanol.

Uniondeb - Rydym yn annibynnol, yn onest, yn atebol ac yn dryloyw am ein gwaith a phopeth a wnawn.

Pa gefnogaeth a ddarperir i aelodau Bwrdd Llais

Mae amrywiaeth o gymorth ar gael i aelodau'r Bwrdd yn seiliedig ar eu hanghenion unigol ac anghenion cyfunol y Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

- Rhaglen gynefino, sy'n rhoi cyflwyniad cynhwysfawr i waith y sefydliad a rolau, cyfrifoldebau a disgwyliadau'r aelod anweithredol.
- Cyfleoedd dysgu a datblygu, yn unigol ac ar y cyd,
- Ad-daliad rhesymol am gostau sy'n gysylltiedig â bod yn aelod o'r Bwrdd tra'n cyflawni dyletswyddau ar ran Llais, er enghraifft llety dros nos, teithio a chynhaliaeth a chymorth arall y gallai'r unigolyn fod ei angen i'w alluogi i gyflawni ei rôl. Caiff y rhain eu hasesu ar gyfer pob aelod o'r Bwrdd a gwneir y trefniadau yn seiliedig ar y gofynion a aseswyd.
- Cefnogaeth gan y Cadeirydd ac aelodau eraill o'r Bwrdd (drwy drefniant 'cyfeillio'). Mae aelodau unigol a'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd hefyd yn cael eu cefnogi a'u cynghori gan Ysgrifennydd Bwrdd Llais.
- Darperir offer electronig a hyfforddiant hefyd e.e. cyfrifiadur Llais i gael mynediad at e-byst a gohebiaeth arall ac agenda a phapurau cyfarfodydd Bwrdd, cyfarfodydd pwyllgor a chyfarfodydd cysylltiedig eraill.
- Mae Llais hefyd yn cefnogi addasiadau rhesymol i alluogi aelodau i wneud eu gwaith yn effeithiol ar ran Llais.

6 Disgrifiad o'r Rôl a Manyleb y Person

Mae Llais yn chwilio am aelod o'r Bwrdd sydd â phrofiad diweddar o gyfrifyddiaeth, cyllid, neu wasanaethau ariannol, ac sydd â dealltwriaeth effeithiol o'r materion iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Cymru (ac yn ddelfrydol yng Ngogledd Cymru). Croesewir ceisiadau gan ymgeiswyr nad oes ganddynt y profiad penodol hwn ond a allai fod â gwybodaeth a sgiliau trosglwyddadwy.

Rhaid i'r aelod anweithredol allu ymrwymo i roi 4 diwrnod y mis i Llais a gallu dangos eu bod yn gallu cydbwyso blaenoriaethau sy'n gwrthdaro ag ymrwymiadau a rolau eraill.

Bydd yr Aelod Bwrdd Anweithredol, yn:

- Darparu arweinyddiaeth effeithiol a chyfrannu at ddatblygu cyfeiriad strategol ac amcanion a rennir drwy ddeall materion

cyfredol sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru,

- Hyrwyddo safonau uchel o ran cyllid cyhoeddus, sicrhau rheoleidd-dra, priodoldeb, a gwerth am arian ac arddangos y gallu i wneud penderfyniadau ac egluro'r rhesymeg dros y penderfyniadau hyn i feithrin ymddiriedaeth a hyder,
- Arwain a meithrin diwylliant sefydliadol cadarnhaol yn seiliedig ar werthoedd ac ymddygiadau cryf a dangos y gallu i weithio fel rhan o dimau a sicrhau dealltwriaeth ac ymrwymiad i degwch, amrywiaeth a chynhwysiant,
- Sicrhau bod Llais yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol o fewn fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd cadarn a dangos y gallu i ystyried a gwneud synnwyr o wybodaeth gymhleth sydd weithiau'n gwrthdaro a'r gallu i ddysgu o brofiad i gyflawni'r canlyniadau datganedig;
- Meddu ar sgiliau cyfathrebu da er mwyn cymryd rhan mewn cyfarfodydd a bod yn llysgennad i Llais yn fewnol ac yn allanol.
- Monitro perfformiad y sefydliad i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion a'i dargedau ac yn darparu her adeiladol a chefnogi eraill i wneud yr un peth.
- Cymryd rhan yn strwythur y pwyllgor, i ddarparu craffu a chyngor i'r Bwrdd.

7 Sut i wneud cais

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru: https://cais.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-4/brand-7/xf-19e0494896a5/candidate/register

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd Aelod Anweithredol o Llais ac yna cliciwch ar y botwm ‘Gwneud Cais’ ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf y byddwch yn gwneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny, byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu cyflwyno, drwy eich cyfrif.

Pan fyddwch wedi cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais ar gyfer y swydd hon. I wneud cais, bydd angen ichi lenwi'r ffurflen gais a

lanlwytho Datganiad Personol a CV cyfredol i adran ‘Rhesymau dros wneud cais’ y ffurflen gais ar-lein.

Yn ystod y broses recriwtio, cewch eich asesu yn erbyn y matrics recriwtio sydd wedi'i amgáu gyda'r pecyn gwybodaeth hwn.

8 Datganiad Personol

Eich dewis chi yw sut rydych chi'n strwythuro'ch datganiad personol. Fodd bynnag, ni ddylai fod yn hirach na dwy dudalen o destun A4 gan ddefnyddio maint ffont 12 fel lleiafswm a dim mwy na 1000 o eiriau. Efallai y caiff eich cais ei wrthod os ewch dros y terfyn geiriau hwn.

Yn y datganiad personol, rhaid i chi ystyried/ateb y 4 datganiad isod i ddangos eich bod yn gallu bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl.

Ni fyddwch yn cael eich cynnwys ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad os na fyddwch chi wedi ateb/ystyried y datganiadau hyn:

1. Disgrifiwch amser/rhowch enghraifft o adeg y buoch yn gweithio gydag eraill i gyflawni amcan a rennir,
2. Rhowch enghraifft o adeg pan wnaethoch chi ddysgu, naill ai o lwyddiant neu gamgymeriad, a defnyddio'r profiad a'r hyn a ddysgwyd i sicrhau gwell canlyniadau yn y dyfodol,
3. Esboniwch sut rydych chi wedi cadw agwedd gadarnhaol at heriau, anawsterau a newid a helpu eraill i wneud yr un peth,
4. Rhowch enghraifft o adeg pan fu rhaid ichi gyfathrebu'n agored ac yn gynhwysol ag eraill i ennyn eu hyder a'u hymddiriedaeth.

Dylech anelu at ddarparu enghreifftiau o bob agwedd ar eich bywyd (nid yn y gweithle yn unig) sy'n dangos eich gwybodaeth, eich profiad a'ch gwerthoedd ac yn disgrifio sut y byddech yn cymhwyso hyn i waith Llais. Dylech hefyd ystyried y meysydd eraill a gwmpesir yn yr adran manyleb y person uchod. Byddai o gymorth i'r aseswyr pe gallech nodi'n glir pa enghreifftiau penodol a roddir gennych sy'n ymwneud â pha ddatganiad wedi'i rifo.

9 Curriculum Vitae

Sicrhewch fod eich CV yn gyfredol ac yn cynnwys manylion cryno eich swydd neu rôl(au) cyfredol neu fwyaf diweddar a'r dyddiadau rydych chi wedi bod yn y swydd neu'r rôl(au). Rydym yn argymell nad yw eich CV yn hirach na 3 tudalen o bapur A4. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

10 Geirdaon

Rhowch enwau dau ganolwr (un yn gyflogwr, os yw'n berthnasol, ac un yn eirda personol). Cysylltir â chanolwyr yr ymgeiswyr llwyddiannus yn unig.

11 Y Gymraeg

Mae Llais a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau amrywiaeth ar ein byrddau cyhoeddus fel eu bod yn cynrychioli Cymru, ei chymunedau a natur ddwyieithog Cymru. Mae'n hanfodol bod aelodau'r Bwrdd yn meddu ar ddealltwriaeth ac empathi tuag at ddarpariaeth Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gweithredu Llais.

Oherwydd lefel bresennol y sgiliau Cymraeg ymhlith aelodau o Fwrdd Llais, mae sgiliau yn y Gymraeg wedi'u hasesu yn ddymunol ar gyfer y swydd hon. Mae gwerthfawrogiad o'r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn ofyniad pwysig ar gyfer y rôl hon.

12 Telerau'r Penodiad

Bydd pob penodiad yn cael ei wneud gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip.

13 Hyd y Penodiad

Bydd yr Aelod yn cael ei benodi am hyd at 4 blynedd i ddechrau. Bydd y penodiad yn cael ei adnewyddu yn amodol ar berfformiad boddhaol a chytundeb Gweinidogol, hyd at uchafswm o 8 mlynedd i gyd. Ni ddylid rhagdybio ailbenodiad awtomatig.

14 Ymrwymiad Amser

Disgwylir i aelodau ymrwymo 4 diwrnod y mis, sy'n cynnwys mynd i gyfarfodydd Bwrdd, cyfarfodydd pwyllgor a gweithgareddau eraill fel y cytunwyd gyda Chadeirydd Llais.

15 Lleoliad

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod wyneb yn wyneb ac yn rhithwir. Cynhelir y cyfarfodydd ar draws lleoliadau yng Nghymru. Mae gan Llais swyddfeydd ar draws Cymru. Efallai y bydd rhywfaint o ofyniad i fynd i swyddfeydd Llais, ond yn anaml iawn y bydd hyn yn digwydd.

16 Tâl cydnabyddiaeth

Y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y rôl yw £198 y diwrnod a gall aelodau hawlio costau teithio a chynhaliaeth yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

17 Cynefino, Dysgu a Datblygu

Mae Llais yn cynnig cyfleoedd cynefino a dysgu llawn gyda ffocws ar ddatblygiad parhaus. Os mai hon yw eich rôl gyntaf yn aelod o Fwrdd, bydd cymorth yn cael ei roi i'ch helpu i ddod yn aelod effeithiol o'r Bwrdd.

18 Amserlen ddangosol

Dyddiad cau: 21 Ebrill 2025

Llunio rhestr fer: 28 Ebrill 2025

Cyfweliadau: wythnos yn dechrau 9 Mehefin 2025

19 Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth cael cyrff cyhoeddus sy'n adlewyrchu amrywiaeth eang o ddiwylliannau, hunaniaethau a chefndiroedd. Rydym yn annog ceisiadau o bob rhan o gymdeithas ac rydym am benodi o'r gronfa dalent ehangaf a mwyaf amrywiol.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb heb ystyried oedran, statws priodasol (gan gynnwys priodas rhwng pobl o'r un rhyw) a phartneriaeth

sifil, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, hunaniaeth rhywedd, amhariad neu gyflwr iechyd, hil, crefydd neu gred, na beichiogrwydd.

Rydym wedi ymrwymo i recriwtio menywod, pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, pobl anabl ac aelodau o'r gymuned LHDTC+, sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn swyddi ar fyrddau cyrff cyhoeddus ar hyn o bryd.

20 Hyderus o Ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu anablu pobl sydd ag amhariad neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.

Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd, sef “amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd”.

Rydym yn gwarantu cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni’r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni’r ‘meini prawf sylfaenol’ yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni’r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a’ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai ‘hanfodol’.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi pobl anabl a datblygu eu gyrfaoedd. Os hoffech gael gwarant o gyfweliad, cysylltwch â'r tîm Penodiadau Cyhoeddus drwy e-bostio: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru i roi gwybod iddyn nhw.

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus cyn gynted â phosibl i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

21 Cysylltiadau Allweddol

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddewis, cysylltwch â:

Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus

E-bost: PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Llais a rôl aelod anweithredol, cysylltwch â Richard Bevan, Ysgrifennydd y Bwrdd, Llais

E-bost: Richard.bevan@llaiscymru.org

Os oes arnoch angen rhagor o gymorth i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

22 Cymhwystra

Dylai unrhyw feini prawf penodol sy'n golygu nad yw unigolyn yn gymwys i fod yn aelod o fwrdd y Corff gael eu nodi yma. Gallai hyn gynnwys meini prawf penodol sy'n golygu bod person yn anghymwys neu sefyllfaoedd lle mae Deddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin 1975 neu orchmynion a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn berthnasol.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd y bydd bod yn aelod o Llais yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn Aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 (legislation.gov.uk)

23 Gwrthdaro Buddiannau

Wrth wneud cais, bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel aelod anweithredol o Llais, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl gyda Llais.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd yn ofynnol ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

24 Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Tîm Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddewis ar gyfer cyfweliad. Bydd hynny'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, chwiliadau ar y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweliad am ffrwyth y gwiriadau diwydrwydd dyladwy hyn.

25 Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus.

Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus (gov.uk)

Ni chaiff gweision sifil gamddefnyddio eu safle swyddogol na gwybodaeth y maent yn ei chael drwy eu dyletswyddau swyddogol er mwyn eu buddiannau preifat neu fuddiannau preifat pobl eraill. Gall gwrthdaro buddiannau godi o fuddiannau ariannol, ac yn fwy eang o ymwneud swyddogol ag unigolion sy'n rhannu buddiannau preifat gwas sifil (e.e. seiri rhyddion, aelodaeth o gymdeithasau, clybiau, sefydliadau a theulu), neu benderfyniadau ynglŷn â'r unigolion hynny.

Pan fo gwrthdaro buddiannau yn codi, rhaid i weision sifil ddatgan eu buddiant i uwch-reolwyr, er mwyn iddyn nhw benderfynu ar y ffordd orau o fwrw ymlaen.

26 Y Broses Ddewis

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i bennu pwy sy'n bodloni meini prawf y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'ch datganiad yn unig i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan gynrychiolydd Llywodraeth Cymru (*manylion i'w cadarnhau*), a bydd hefyd yn cynnwys yr Athro Medwin Hughes, Cadeirydd Llais ac Aelod Annibynnol o'r Panel, Alison Thorne, Cadeirydd, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel dethol i'w ystyried. Sylwch ei bod yn bosibl na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa o'r fath.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu erbyn mis Mai 2025 pwy fydd yn cael eu gwahodd am gyfweliad ym mis Mehefin 2025. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau drwy Microsoft Teams.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf ym marn y panel sydd wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir ym manyleb y person a fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad a'ch bod yn bodloni **meini prawf hanfodol** y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad yw dyddiad y cyfweliad wedi'i nodi eisoes yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi am ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, gwnawn bob ymdrech i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Cewch e-bost gan ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi os ydych wedi cael eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a’ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni meini prawf** y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidog, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cwrdd â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cwrdd â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi'u cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf o ran hynt y broses honno.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi’n Aelod Anweithredol o Llais, a bydd y llythyr hwnnw hefyd yn cadarnhau o dan ba amodau y caiff y penodiad ei gynnig ichi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, cewch wybod drwy ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod

angen llawer o amser ac ymdrech i ymgeisio am swyddi, a bod rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Felly, bydd y llythyr yn nodi â phwy y gallwch gysylltu i gael adborth ar eich cais a'ch cyfweliad, os dymunwch wneud hynny.

27 Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

Os nad ydych yn gwbl fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu pob cais mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn deg ac yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Yn ogystal, gallwch ysgrifennu at:

Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus: **Office of the Commissioner for Public Appointments,** Ground Floor, 1 Horse Guards Road, London, SW1A 2HQ, neu e-bostio publicappointments@csc.gov.uk